Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Capel Garmon**
**Capel Garmon**
**Llanrwst**
**Conwy**
**LL26 0RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Capel Garmon

Mae Ysgol Capel Garmon wedi ei lleoli ym mhentref Capel Garmon, ger Betws y Coed, Sir Conwy. Mae 14 disgybl yn yr ysgol mewn dau ddosbarth oedran cymysg.

Daw tua 94% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Tros dreigl tair blynedd, tua 17% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae tua 16% o'r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2014. Ers 2016, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag ysgolion Betws-y-Coed a Dolwyddelan gydag un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Capel Garmon yn ysgol deuluol, hapus sydd yn gofalu am ei disgyblion yn dda. Mae'r athrawon a'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau amrediad cyfoethog o weithgareddau difyr ar gyfer y disgyblion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n aeddfed, ac mae'r berthynas rhyngddynt a'r staff yn nodwedd gref. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm amrywiol a diddorol sydd yn llwyddo i ysgogi'r disgyblion gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u bro a'u treftadaeth Gymreig yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn niwylliant eu hardal ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ddigwyddiadau o fewn y gymuned leol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru, er enghraifft trwy ymweliadau, a thrwy gerddoriaeth gyfoes.

Penodwyd y pennaeth i'w rôl yn ffurfiol fel pennaeth y ffederasiwn ym mis Mawrth 2016. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer Ysgol Capel Garmon a'i lle o fewn y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i ryngweithio â disgyblion mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, ni chaiff rolau a chyfrifoldebau staff eu diffinio'n ddigon clir ar draws y ffederasiwn er mwyn cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn hyrwyddo cydweithio agos rhwng holl staff y ffederasiwn

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn

A3 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn

A4 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu ar draws y ffederasiwn er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her gyson i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A5 Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Maent yn siarad Cymraeg yn fyrlymus ac yn gwrando'n astud yn ystod gwersi. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt yn dysgu'r iaith yn gyflym, gan fagu hyder trwy sgwrsio gyda'u cyfoedion. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio cystrawennau ymestynnol yn hyderus, er enghraifft wrth drafod gwahanol adeiladau o fewn y pentref. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus a chywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hollol naturiol yn eu gwersi ac ar adegau anffurfiol. Mae llawer yn mynegi barn drwy holi cwestiynau a chynnig atebion aeddfed mewn gwasanaethau ysgol, er enghraifft wrth drafod cynhesu byd eang.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn hyderus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth o seiniau llythrennau yn gynnar, ac yn eu defnyddio i adeiladu geiriau o fewn yr ardaloedd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio strategaethau amrywiol wrth ddarllen a dod o hyd i ystyr mewn gwahanol destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn dethol testunau addas yn fedrus, gan drafod eu hoffter o wahanol ffurfiau yn aeddfed. Mae'r darllenwyr mwyaf galluog ar frig yr ysgol yn darllen yn hynod ystyrlon.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn, ac maent yn llunio cymalau a geiriau cyfarwydd yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn ymateb yn dda i gyfleoedd i greu testunau diddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i wahodd swyddog y cyngor lleol i'r ysgol i drafod ailgylchu. Maent yn defnyddio geirfa ymestynnol ac yn dangos gafael dda ar atalnodi a sillafu. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn creu darnau dychmygus ac aeddfed, er enghraifft wrth greu ysgrif ddychmygus am effeithiau boddi Capel Celyn yn y chwedegau. Maent yn ysgrifennu'n ffeithiol i safon dda, er enghraifft wrth greu adroddiadau am eu hymchwiliadau gwyddonol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y derbyn yn cyfri hyd at ddeg ac yn trafod priodweddau siapau cyfarwydd gyda chywirdeb. Maent yn adeiladu patrymau cymesur syml. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 fedrau rhif Enghraifft dda yw'r modd y maent yn defnyddio cyfesurynnau i leoli gwahanol offer yng nghae chwarae Capel Garmon, a defnyddio diagramau Venn i gymharu'r priodweddau gyda'r parc mewn llyfr stori cyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn amrediad effeithiol o gyd destunau. Mae ganddynt fedrau rhif cadarn, ac yn eu defnyddio'n hyderus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gymharu costau gwahanol gynhwysion ar gyfer gwneud crempogau. Mae'r

disgyblion mwy galluog yn cyflawni i lefel uchel.  Maent yn nodi cyfesurynnau yn y pedwar cwadrant yn llwyddiannus, ac yn mesur graddfa tyfiant berw'r dŵr yn fanwl a chywir.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol.  Yn y cyfnod sylfaen, maent yn defnyddio amrediad o offer a rhaglenni pwrpasol i hwyluso eu dysgu, er enghraifft wrth gofnodi'r broses o bobi cacen ar gyfer y tri mochyn bach ac wrth raglennu cyfeiriad a phellter ar gyfer robotiaid syml.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrediad o offer cyfrifiadurol yn aeddfed a hyderus er mwyn cyfoethogi a hwyluso eu dysgu.  Maent yn gwneud dewisiadau doeth o ran y galedwedd a'r feddalwedd fwyaf effeithiol ar gyfer gwahanol dasgau;  er enghraifft, wrth gydweithio ar gyflwyniad, maent yn defnyddio pecyn fideo wedi ei seilio ar chwedlau lleol yn synhwyrol.

Mae medrau creadigol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda.  Mae rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn creu modelau a darluniau gwreiddiol, er enghraifft wrth efelychu clociau tref Llanrwst.  Mae rhan fwyaf o disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn llwyddiannus i symbyliadau cerddorol, gan arddangos gwerthfawrogiad medrus o draw, rhythm a gwead, er enghraifft wrth werthuso gwaith y cyfansoddwr Rossini.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae bron bob un disgybl yn mwynhau'r ysgol.  Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod adegau egwyl.  Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder amlwg wrth siarad am eu hysgol.  Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf yn dda.  Maent yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio, gyda'r disgyblion hŷn yn barod iawn i ymgymryd â'u rôl fel 'Bydis Buarth' ac i helpu i ofalu am y disgyblion iau gan eu hannog i chwarae yn ystod adegau egwyl.  Mae hyn yn hybu gofal a chyfrifoldeb ymhlith y disgyblion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith.  Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n hwylus ac yn cadw'n ddygn ar dasg am gyfnodau estynedig.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o ddycnwch, diddordeb a balchder yn eu gwaith.  Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos aeddfedrwydd wrth weithio'n unigol, mewn parau neu mewn grwpiau.  Maent yn gwrando'n dda ac yn ymateb gyda diddordeb yn eu gwersi.  Maent yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus, er enghraifft wrth gyflawni tasgau yn seiliedig ar stori'r tri mochyn bach yn yr ardal allanol.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion.  Fodd bynnag, dechrau gwreiddio mae medrau'r disgyblion o ran eu gallu i wella ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae'r disgyblion sy'n aelodau o gynghorau yn ymgymryd â'u rolau yn gyfrifol a chydwybodol.  Er enghraifft, maent yn hybu gweithgareddau sy'n helpu eu cyd-ddisgyblion i ddeall pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd, fel creu eco-fricsen o ddeunyddiau gwastraff.   Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol ac i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned, fel y gwasanaeth diolchgarwch yn yr capel, neu wrth godi arian at blant mewn angen.  Maent yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft wrth gyd-giniawa a rhannu sgwrs gyda'r henoed o'r gymdeithas leol.

Trwy weithgareddau fel Diwrnod Masnach Deg, mae'r disgyblion yn magu ymwybyddiaeth o fywyd mewn gwledydd sy'n datblygu'n economaidd a phwysigrwydd gweithio tuag at sicrhau cymunedau a chymdeithas mwy cyfartal. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o'u hunaniaeth Gymreig. Maent yn arddangos balchder gwirioneddol yn eu milltir sgwâr, ei thirwedd, diwylliant, a'i threftadaeth gyfoethog. Er enghraifft, buont yn chwarae rôl lawn mewn paratoadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol gynhaliwyd yn lleol yn ddiweddar.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer corff, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff ac yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfraddau presenoldeb uchel yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac mae perthynas hynod gartrefol yn yr ysgol. Mae'r staff yn fodelau ieithyddol arbennig o effeithiol. Maent yn annog y disgyblion i arddel y Gymraeg ac i'w defnyddio ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi ac ar adegau cymdeithasol. Mae gweithgareddau fel gwrando ar ganeuon Cymraeg newydd, yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o elfennau cyfoes y Gymraeg yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn cynnig arweiniad effeithiol mewn gwersi ac yn sicrhau bod y disgyblion yn aros ar dasg am gyfnodau estynedig. Maent yn rhannu amcanion clir gyda'r disgyblion, ac yn gwneud defnydd cyson o feini prawf llwyddiant er mwyn i'r disgyblion ddatblygu hyder wrth werthuso eu cynnydd eu hunain. Mae'r addysgu yn ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion o oedrannau a galluoedd gwahanol. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio gweithgareddau sydd, ar y cyfan, yn herio disgyblion i fagu annibyniaeth a meddwl drostynt eu hunain. Yn yr ychydig weithgareddau llai llwyddiannus, yn arbennig yn y cyfnod sylfaen, mae'r gor-ddefnydd o daflenni gwaith parod ar adegau yn cyfyngu ar y dysgu. Nid yw'r gweithgaredd bob amser yn darparu'r lefel briodol o her er mwyn galluogi'r disgybl i wneud cynnydd gystal ag y gall.

Mae'r athrawon yn darparu adborth llafar effeithiol, sy'n galluogi disgyblion i symud ymlaen at y cam nesaf yn eu dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion drafod gyda chymheiriaid,er enghraifft yng nghyfnod allweddol 2 wrth i ddisgyblion drafod priodweddau gwahanol bortreadau cyn creu eu portread eu hunain o'r afanc o'r chwedl leol, 'Llyn yr Afanc.' Mae'r athrawon yn darparu targedau personol ar gyfer y disgyblion ac mae'r gweithdrefnau hyn yn dechrau gwreiddio. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i werthuso gwaith eu cymheiriaid, gan gynnig sylwadau ynglŷn â'r camau nesaf. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig yr athrawon bob amser yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ynglŷn â sut i wella eu gwaith.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion gynnig syniadau am y themâu y maent yn eu hastudio. Maent yn addasu eu cynlluniau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau o wir ddiddordeb i'r disgyblion. Maent yn treialu gwahanol syniadau ac yn gwerthuso eu heffaith, heb ofni methu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, yn teimlo perchnogaeth gynyddol dros eu dysgu.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r adeilad, y safle a'r ardal leol er mwyn cyfoethogi dysgu'r disgyblion, er enghraifft wrth astudio chwedlau lleol ac wrth gyfranogi'n llawn yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Llanrwst yn ddiweddar.

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn cael eu datblygu ar y cyd ag athrawon o fewn ysgolion y ffederasiwn ac maent yn cael eu gweithredu'n hylaw a llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gydweithio â disgyblion a staff Ysgol Betws y Coed ac Ysgol Dolwyddelan i ganolbwyntio ar agweddau penodol yn llwyddiannus iawn. Enghraifft nodedig yw'r prosiect a gynhaliwyd yn ddiweddar lle cafodd y disgyblion gyfleoedd i gydweithio â'u cymheiriaid a dysgu medrau cyfrifiadurol wrth gynllunio car aerodynameg.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer cyflwyno llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn gwahanol gyd-destunau yn drwyadl. Mae'r cwricwlwm yn eang a chyfoethog. Mae cyfleoedd symbylus i'r disgyblion ddysgu am elfennau gwyddonol yn effeithiol. Maent yn dysgu am ddaearyddiaeth a hanes Cymru, er enghraifft wrth graffu ar hanes cestyll y gogledd. Mae'r athrawon yn achub ar bob cyfle i ddefnyddio'r ardal leol er mwyn symbylu gweithgareddau dysgu amrywiol a chyfoethog, er enghraifft wrth arddio yn y pentref ac wrth fynd ar deithiau natur. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu ymglymiad cymunedol y disgyblion yn effeithiol iawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol a gofalgar sy'n creu cymuned glós lle mae disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd ac at oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu cynllun addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol sy'n meithrin agweddau megis goddefgarwch a chydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae'r cynllun 'Bydis Buarth' sy'n annog disgyblion i gynnal a gofalu am ei gilydd yn ystod adegau egwyl, yn cyfrannu at sicrhau cymuned gynhwysol a chyfartal.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio canfyddiadau'r gwaith i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ac i ddarparu ymyrraeth briodol, pan fo angen. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig gynllun addysg unigol wedi ei lunio mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyrraeth ac yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae'r ddarpariaeth hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, caiff disgyblion eu hannog i yfed dŵr yn gyson ac i fwyta ffrwythau yn ystod adegau egwyl. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hybu iechyd corfforol drwy wersi ymarfer corff, ac yn ddiweddar, mae'r disgyblion wedi dechrau ar yr arfer o gerdded milltir y dydd. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ofalus i warchod lles meddyliol ac emosiynol y disgyblion ac yn hyrwyddo gwydnwch a dyfalbarhad. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar feddylfryd a hyder y disgyblion yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel parch, gofal a gwerthfawrogi gwahaniaeth. Mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am faterion moesegol fel gwarchod yr amgylchedd a masnach deg a'u rhan nhw i sicrhau byd tecach, er enghraifft drwy leihau gwastraff. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu paratoi'n llwyddiannus fel dinasyddion cyfrifol y dyfodol ac yn adlewyrchu arwyddair yr ysgol, sef 'Ysgol fach, Ysgol i fyd.'

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn ac i gyfrannu at eu dysgu ac at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill. Fodd bynnag, cyfyng yw effaith wirioneddol y cynghorau disgyblion ar faterion ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo defnydd y Gymraeg ac ar feithrin balchder yn yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Mae'r disgyblion yn cael pob cyfle i fanteisio ar ystod eang o brofiadau cyfoethog trwy weithgarwch yr Urdd a thrwy wneud y gorau o gyfoeth diwylliant yr ardal leol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni drwy amrediad o ddulliau. Mae polisi drws agored yn cael ei werthfawrogi gan rieni. Mae'r ysgol yn barod i wrando ar safbwyntiau rhieni a'u hawgrymiadau ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau addysgiadol i rieni sy'n gymorth i gynyddu eu dealltwriaeth o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r athrawon yn darparu adroddiadau buddiol ac yn rhannu gwybodaeth reolaidd gyda rhieni am gynnydd eu plant.

Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned leol ac yn cynnal y cysylltiad hwnnw drwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau a thrwy wahodd yr henoed i'r ysgol yn fisol i gael cinio gyda'r disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i'w lawn botensial mewn amgylchedd ddysgu hapus, diogel ac ysgogol. Gwneir hyn drwy gyflwyno pob disgybl i etifeddiaeth Gymraeg a'u datblygu yn

aelodau llawn o gymdeithas. Mae'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion, y staff ac aelodau'r corff llywodraethol. Nodwedd gadarnhaol yw fod pob ysgol unigol wedi cadw ei naws unigryw ei hun.

Mae'r staff wedi dechrau cefnogi'r pennaeth drwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig nawr yn gyson ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau'r disgyblion perthnasol. Yn ogystal, daw staff y cyfnod sylfaen at ei gilydd i gydgynllunio gweithgareddau er mwyn rhannu arfer dda ac i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod y ffederasiwn mewn bodolaeth ers tair blynedd, nid yw'r arferion hyn wedi sefydlu'n llawn eto.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau o fewn eu hysgolion unigol. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth drylwyr na chytûn am rolau arweinwyr a'u cyfrifoldebau addysgu a dysgu ar draws y ffederasiwn. Golyga hyn nad yw dyletswyddau yn cael eu dyrannu'n deg ac nid yw llinellau atebolrwydd yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth a staffio presennol yn ddigon cynaliadwy i gael ei lawn effaith ar gyfer cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r holl staff adrodd ar gryfderau ac agweddau sydd angen eu cryfhau o fewn yr ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn arf effeithiol i adnabod yr angen am welliant ar draws y ffederasiwn. Er enghraifft, wrth ddadansoddi sylwadau'r staff, adnabuwyd bod angen cysoni profiadau TGCh y disgyblion. Trefnodd arweinwyr fod disgyblion cyfnod allweddol 2 i gyd yn ymweld ag Ysgol Betws-Y-Coed yn wythnosol ar gyfer gwersi TGCh. O ganlyniad, mae safonau'r disgyblion wedi codi ar draws y ffederasiwn.

Fodd bynnag, cyfyng yw'r ystod o weithgareddau monitro, gwerthuso a sicrhau ansawdd a gynhelir yn rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'r prosesau yn ddigon grymus i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r meysydd sydd angen eu gwella bob tro; er enghraifft, mewn ychydig o wersi, mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn cyfyngu ar y dysgu.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol yn effeithiol. Maent yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff, sy'n cael effaith fuddiol ar y ddarpariaeth ac ar safonau disgyblion. Er enghraifft, mae hyfforddiant am sut i hybu medrau meddwl disgyblion yn Saesneg wedi arwain at godi hyder a safonau llafar disgyblion yn ogystal â'u medrau meddwl. Mae'r hyfforddiant yn aml yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Ers iddynt sefydlu fel un corff unedig, mae'r llywodraethwyr wedi bod yn gefnogol iawn i'r ffederasiwn, ac mae ganddynt afael dda ar safonau a chyflawniad disgyblion ac â sefyllfa gyllidol yr ysgolion. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am fywyd a gwaith y ffederasiwn, sy'n atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda.

Maent yn adnabod manteision bod mewn ffederasiwn, gan wneud penderfyniadau ar gyfer y tair ysgol, er enghraifft wrth iddynt fynd i'r afael â sefyllfa ariannol heriol. Maent yn gweld y potensial buddiol sydd i rannu arbenigeddau staff ar draws y ffederasiwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr hyd yma wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i'r rhieni.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol, gyda phenderfyniadau gwariant yn cael eu cynnwys mewn targedau ar gyfer gwella yn briodol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da sy’n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol. Mae arweinwyr yn rheoli ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol er mwyn darparu cymorth ychwanegol i weithio gyda dysgwyr bregus. Mae hyn yn cael effaith bositif ar sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion hyn yn cyflawni'n dda.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019